OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1011

# Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004

**Gweithdrefn asesu**

**6.**—(1) Rhaid i'r asesiad o anghenion person am wasanaethau cymorth mabwysiadu gael ei gynnal gan berson a chanddo'r cymwysterau a'r profiad addas, ynghyd â'r sgiliau angenhreidiol at ddibenion yr asesiad.

(2) Wrth asesu, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y canlynol—

(a) anghenion y person;

(b) anghenion teulu mabwysiadol y person;

(c) o ran plentyn mabwysiadol a leolwyd i'w fabwysiadu, yr amgylchiadau a arweiniodd at leoli'r plentyn i'w fabwysiadu;

(ch) unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn mabwysiadol sy'n codi oherwydd —

(i) bod y plentyn wedi bod o dan ofal yr awdurdod lleol;

(ii) bod y plentyn wedi preswylio'n arferol y tu allan i Ynysoedd Prydain;

(iii) bod y rhiant mabwysiadol yn berthynas i'r plentyn.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol, pan fydd yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny—

(a) cyfweld â'r person ac os bydd y person yn blentyn mabwysiadol, ei rieni mabwysiadol;

(b) llunio adroddiad ysgrifenedig o'r asesiad.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol, gan ystyried yr asesiad, benderfynu—

(a) a oes ar y person angen gwasanaethau cymorth mabwysiadu; a

(b) os felly, a oes angen darparu'r gwasanaethau hynny iddo,

ac, yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7), rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'r penderfyniad yn ysgrifenedig yn unol â pharagraff (5), yn ogystal â'r rhesymau drosto.

(5) Rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) gael ei roi —

(a) pan fydd y person yn oedolyn, i'r person hwnnw;

(b) pan fydd y person yn blentyn ac—

(i) ymddengys i'r awdurdod lleol fod y plentyn yn ddigon hen a'i fod yn deall digon iddi fod yn briodol rhoi'r hysbysiad hwnnw iddo; a

(ii) o ystyried popeth, nid ymddengys yn amhriodol gwneud hynny,

i'r plentyn;

(c) mewn unrhyw achos arall pan fydd y person yn blentyn, i—

(i) y person y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 11(1) o Reoliadau 1983 y byddai'n rhiant mabwysiadol addas i'r plentyn;

(ii) y person y lleolwyd y plentyn gydag ef i'w fabwysiadu;

(iii) y person sydd wedi mabwysiadu'r plentyn; neu

os nad yw person yn dod o fewn penawdau (i) i (iii) o'r is-baragraff hwn, y person sy'n bwriadu mabwysiadu'r plentyn.

(6) Pan fydd yr asesiad yn ymwneud â darparu gwybodaeth yn unig, ni fydd y gofyniad ym mharagraff (4) i roi hysbysiad yn gymwys pan na fydd yr awdurdod lleol yn ei hystyried yn briodol rhoi hysbysiad.

(7) Pan fydd yr asesiad yn ymwneud ag angen person am gymorth ariannol, rhaid rhoi'r hysbysiad a roddir mewn perthynas â phenderfyniad yr awdurod lleol ynghylch darparu cymorth ariannol yn ychwanegol at unrhyw hysbysiad a roddir yn unol â rheoliadau 12 a 13.